

Prosiect Wylfa Newydd

Datganiad o Ymgynghori Cymunedol

Fersiwn 3: Mai 2017

Prosiect Wylfa Newydd – Gorsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig ar Ynys Môn

Mae'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol hwn yn ymwneud â chynigion Horizon Nuclear Power Wylfa Limited (Horizon) i ddatblygu gorsaf bŵer niwclear newydd ar Ynys Môn – Prosiect Wylfa Newydd.

Rydyn ni wedi cynhyrchu'r diweddariad hwn i'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol roedden ni wedi'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2016 gan ein bod yn cynnig rhai newidiadau arwyddocaol i ddyluniad y prosiect. Rydwn ni wedi penderfynu cynnal cam arall o ymgynghori ffurfiol ar y newidiadau hyn cyn cyflwyno ein Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn nes ymlaen yn 2017.

Yn ogystal ag esblygiad dyluniad y prosiect, bu newidiadau yn y gyfraith. Mae Deddf Cymru 2017 yn caniatáu i ddatblygwyr gynnwys datblygiadau cysylltiedig (fel cyfleusterau parcio a theithio neu lety gweithwyr dros dro) yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu ar gyfer yr orsaf bŵer. Bydd ein hymgyngoriad pellach yn cynnwys nifer o ddatblygiadau cysylltiedig a fydd nawr yn cael eu cynnwys yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.

Pwy ydy Horizon, a beth ydy Prosiect Wylfa Newydd?

Mae grŵp cwmnïau Horizon, sy'n berchen i Hitachi, Ltd., yn datblygu cenhedlaeth newydd o orsafoedd pŵer niwclear i helpu i ddiwallu angen y Deyrnas Unedig ar gyfer ynni carbon isel diogel a fforddiadwy. Gall pŵer niwclear chwarae rhan hollbwysig o ran diwallu'r her o gynnal cyflenwadau sicr o ynni ar gyfer y Deyrnas Unedig, ar yr un pryd â mynd i'r afael â bygythiad byd-eang newid yn yr hinsawdd drwy gyrraedd targedau lleihau allyriadau.

Fel rhan o'n Prosiect, rydyn ni'n bwriadu adeiladu a gweithredu gorsaf bŵer niwclear newydd, a fydd yn cael ei galw'n 'Wylfa Newydd'. Bydd yn cynnwys dau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y Deyrnas Unedig (a gyflenwir gan Hitachi-GE Nuclear Energy, Ltd.) ac offer, strwythurau a nodweddion cysylltiedig (yr Orsaf Bŵer), ynghyd â datblygiadau cysylltiedig i gefnogi'r gwaith o'i gyflawni. Bydd gan yr Orsaf Bŵer gapasiti a fydd yn o leiaf 2,700 megawat o drydan, gan gynhyrchu digon o bŵer ar gyfer oddeutu pum miliwn o dai.

Bydd prif offer a strwythurau'r Orsaf Bŵer weithredol yn cael eu gosod ger yr orsaf bŵer Magnox bresennol, i'r gorllewin o Gemaes, Ynys Môn. Rydyn ni'n bwriadu cynhyrchu trydan yn Wylfa Newydd erbyn 2025.

Pŵer Niwclear Horizon – Ein Gweledigaeth a'n Cenhadaeth

Rydyn ni'n credu bod taer angen pŵer niwclear newydd yn y Deyrnas Unedig er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r her hollbwysig a chymhleth o ddarparu dyfodol ynni cynaliadwy. Mae pŵer niwclear yn elfen allweddol yng nghymysgedd ynni'r DU. Byddwn ni'n darparu ynni sicr, fforddiadwy a charbon isel ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Ein bwriad ydy adeiladu cwmni cyfleustod niwclear newydd yn y Deyrnas Unedig a fydd ar flaen y gad, gan ddatblygu, adeiladu a gweithredu Adweithyddion Dŵr Berwedig Uwch y Deyrnas Unedig ar Ynys Môn ac yn Oldbury-on-Severn yn Ne Swydd Gaerloyw.

Mae Horizon wedi ymrwymo i weithio gyda chymuned Ynys Môn, a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru, i sicrhau bod y cymunedau hyn yn elwa o effeithiau economaidd gymdeithasol cadarnhaol prosiect seilwaith arwyddocaol yn y DU. Er enghraifft, rydyn ni wedi ymrwymo i recriwtio yn lleol a datblygu sgiliau a'r gadwyn gyflenwi ar yr un pryd â diogelu'r iaith

Gymraeg a'i diwylliant. Mae Horizon yn cydnabod bod Wylfa Newydd yn brosiect 100 mlynedd o'r datblygu, yr adeiladu i'r gweithredu a'r datgomisiynu yn y pen draw.

Rhagor o wybodaeth:

www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad

PROSIECT WYLFA NEWYDD – DATGANIAD O YMGYNGHORI CYMUNEDOL | PŴER NIWCLEAR HORIZON

Mae'r Orsaf Bŵer yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol at ddibenion Deddf Cynllunio 2008 ac felly bydd angen i ni gyflwyno cais i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i gael Gorchymyn Cydsyniad Datblygu dan y Ddeddf honno i awdurdodi'r orsaf a'i datblygiadau cysylltiedig.

Mae ymgynghori'n rhan bwysig o'r broses cynllunio a datblygu, ac mae Deddf Cynllunio 2008 yn mynnu bod datblygwyr yn rhoi llawer o gyhoeddusrwydd i'w cynigion ac yn ymgynghori â'r gymuned leol, awdurdodau lleol, cyrff statudol a phobl sydd â diddordeb yn y tir mae'r Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn debyg o effeithio arno. 'Ymgynghoriad cyn ymgeisio' ydy'r enw ar y broses hon a rhaid gwneud hyn cyn i'r Arolygiaeth Gynllunio allu derbyn cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol.

Yn benodol, mae adran 47 o Ddeddf Cynllunio 2008 yn mynnu bod datblygwyr yn paratoi Datganiad o Ymgynghori Cymunedol sy'n egluro sut byddan nhw'n ymgynghori â'r bobl y gallai datblygu Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol effeithio arnyn nhw, gan gynnwys pobl sy'n byw yn agos at y cynigion. Gan hynny, mae'r ddogfen hon yn rhan bwysig o'r broses gydsyniad, gan ein tywys drwy ymgynghoriad effeithiol ynghylch ein cynigion cyn gwneud cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu.

Roeddem wedi cyhoeddi ein Datganiad o Ymgynghori Cymunedol cyntaf ym mis Medi 2014. Ym mis Ionawr 2016, roeddem wedi cynhyrchu diweddariad a oedd yn adlewyrchu'r newidiadau i sut byddwn ni'n ymgynghori.

Ar ôl rhai newidiadau sylweddol i'r prosiect, a newidiadau i'r gyfraith o dan Ddeddf Cymru 2017, rydyn ni nawr yn cynhyrchu'r diweddariad pellach hwn. Fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Cynllunio 2008, rydyn ni wedi ymgynghori â'r awdurdod lleol perthnasol, Cyngor Sir Ynys Môn, ar y fersiwn drafft hwn o'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol a'n dull gweithredu strategol fel sy'n cael ei ddisgrifio yn y ddogfen hon.

Byddwn yn darparu copïau o'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol hwn i bobl sy'n byw'n agos at ein cynigion drwy ei roi ar ein gwefan ac mewn llyfrgelloedd ar draws Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy, a drwy ei hysbysebu mewn papurau newydd lleol a rhanbarthol.

Mae'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol hwn yn egluro:

- **beth** rydym ni'n cynnig ei ddatblygu – sy'n cynnwys disgrifiad byr o Brosiect Wylfa Newydd, gan gynnwys y datblygiadau cysylltiedig;
- **y broses o roi cydsyniad** – gan gynnwys sut mae effeithiau amgylcheddol yn cael eu hasesu er mwyn nodi manteision ac effeithiau andwyol posibl y Prosiect;
- **pryd** byddwn ni'n ymgynghori;
- **ble** byddwn ni'n ymgynghori ac â **phwy**;
- **sut** byddwn ni'n ymgynghori â phobl, grwpiau a mudiadau cymunedol; a
- **sut** mae modd i bobl ymateb i'r ymgynghoriad a chanfod sut mae'r adborth wedi cael ei ystyried.



Ffigur 1: Lleoliad dangosol ein Gorsaf Bŵer

Prosiect Wylfa Newydd

Y prif ddatblygiad parhaol rydyn ni'n gofyn am gydsyniad ar ei gyfer ydy'r Orsaf Bŵer a fydd yn cynnwys dau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y Deyrnas Unedig ac adeiladau cefnogol cysylltiedig ynghyd â'r tyrbinau stêm, generaduron trydan ac offer cysylltiedig (fel y strwythur dŵr oeri a'r morgloddiau), adeiladau i storio gwastraff a thanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio, a strwythurau a nodweddion cefnogol (fel ffyrdd a gwaith tirweddu).

Bydd angen nifer o ddatblygiadau cysylltiedig eraill er mwyn cefnogi'r gwaith o adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleuster parcio a theithio, llety gweithwyr dros dro a chanolfan logisteg, y byddent i gyd hefyd yn cael eu cynnwys yn y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu.

Mae disgwyl hefyd y bydd y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn cynnwys cyfleuster dadlwytho morol, a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer danfon nwyddau'n uniongyrchol dros y môr i safle'r Orsaf Bŵer yn ogystal â chyfleusterau hollbwysig eraill oddi ar y safle er mwyn gweithredu'r Orsaf Bŵer (garej offer argyfwng symudol, canolfan rheoli argyfwng amgen a labordy arolygon amgylcheddol). Byddai'r rhain yn lleol ond ar wahân i safle'r Orsaf Bŵer.

Bydd angen gwella ffyrdd yng ngogledd orllewin yr ynys er mwyn gallu cefnogi'r gwaith o adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer a bydd hyn yn cael cydsyniad fel datblygiad cysylltiedig naill ai drwy'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (ar gyfer darnau newydd o ffordd) neu drwy gais am ganiatâd cynllunio i Gyngor Sir Ynys Môn (ar gyfer gwella ffyrdd presennol).

Efallai y bydd rhywfaint o'r gwaith galluogi, fel paratoi'r safle, yn symud ymlaen drwy geisiadau am ganiatâd cynllunio i Gyngor Sir Ynys Môn. Roeddem wedi cynnal ymgynghoriad o dan

adran 61Z o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar gyfer rhywfaint o'r gwaith cynnar hwn y llynedd ac efallai y byddwn yn ail ymgynghori rywbryd yn y dyfodol ar wahân i'r ymgynghoriad sy'n cael ei ddisgrifio yn y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol hwn.

Mae angen cysylltu'r Orsaf Bŵer â rhwydwaith trawsyrru trydan National Grid, ac mae National Grid yn ymgynghori ar wahân ar y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu angenrheidiol i weithredu cysylltiad â'r grid.

PROSIECT WYLFA NEWYDD – DATGANIAD O YMGYNGHORI CYMUNEDOL | PŴER NIWCLEAR HORIZON

BETH YW'R BROSES GYDSYNIO?

Mae Deddf Cymru 2017 yn golygu bod modd i Orchmynion Cydsyniad Datblygu gynnwys ystod eang o ddatblygiadau cysylltiedig. Yn y gorffennol roedd yn rhaid cael caniatâd cynllunio gan yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer hyn, sef Cyngor Sir Ynys Môn yn achos y Prosiect hwn.

Rydyn ni nawr yn bwriadu cynnwys y rhan fwyaf o elfennau datblygiadau cysylltiedig Prosiect Wylfa Newydd yn ein cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu. Mae hyn yn golygu yn ogystal â'r Orsaf Bŵer, y Cyfleuster Dadlwytho Morol a chyfleusterau oddi ar y safle'r orsaf bŵer, bydd y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu nawr hefyd yn cynnwys llety gweithwyr dros dro, cyfleuster parcio a theithio, canolfan logisteg a gwelliannau allweddol i'r briffordd.

Bydd nifer o ddatblygiadau cysylltiedig eraill (gan gynnwys gwaith paratoi'r safle, gwella'r briffordd bresennol a'r ganolfan i ymwelwyr) yn cael cydsyniad drwy geisiadau am ganiatad cynllunio a fydd yn cael eu cyflwyno i Gyngor Sir Ynys Mon. Bydd ymgynghoriadau yn cael eu cynnal ar y ceisiadau hyn maes o law. Bydd angen i'r Arolygiaeth Gynllunio fod yn fodlon ein bod ni wedi cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio yn effeithiol, yn unol â gofynion Deddf Cynllunio 2008. Ar ôl archwilio a derbyn y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid rhoi Gorchymyn Cydsyniad Datblygu ar gyfer Prosiect Newydd Wylfa, yn unol â pholisi.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gosod polisiâu mewn perthynas â Phrosiectau Seilwaith sydd o Arwyddocâd Cenedlaethol mewn Datganiadau Polisi Cenedlaethol. Rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio ystyried, a rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu, a ydy ein cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu yn cyd-fynd â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol canlynol:

Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar Ynni (NPS EN-1)

Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol hwn yn nodi'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer datblygu ynni. Mae'n sefydlu bod taer angen cynhyrchu trydan carbon isel newydd yn y DU.

Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Cynhyrchu Ynni Niwclear (NPS EN-6)

Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol hwn yn dynodi safle Wylfa Newydd fel un o nifer o safleoedd yn y Deyrnas Unedig mae'r Llywodraeth yn credu a allai fod yn addas ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd. Mae hefyd yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer ystyried ceisiadau am Orchymynion Cydsyniad Datblygu am brosiectau niwclear newydd.

Gyda'i gilydd, mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol hyn yn pennu bod taer angen capasiti newydd i gynhyrchu trydan, gan gynnwys niwclear. Mae EN-6 yn egluro y dylid ystyried cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd ar y sail "bod yr angen am seilwaith o'r fath wedi cael ei ddangos". O'r herwydd, fyddwn ni ddim yn ymgynghori ynghylch yr egwyddor o bŵer niwclear, na pha mor addas ydy safle Wylfa Newydd ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd. Yn lle hynny, bydd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar y cynigion penodol rydyn ni'n eu cyflwyno.

Ar ben hynny, bydd angen i ni wneud cais am Drwydded Forol (ar gyfer y gwaith yn y môr), yn ogystal â thrwyddedau amgylcheddol eraill.

SUT MAE EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL YN CAEL EU HASESU

Mae'r Orsaf Bŵer yn cael ei chyfrif fel datblygiad asesu effeithiau amgylcheddol at ddibenion Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009. Mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid paratoi Datganiad Amgylcheddol, sy'n disgrifio effeithiau amgylcheddol y prosiect, i fynd gyda'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu.

Rydyn ni wedi darparu Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol a diweddariadau i'r Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol yn ystod pob ymgynghoriad. Yn ein trydydd ymgynghoriad cyn ymgeisio byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth amgylcheddol wedi'i diweddaru, gan ganolbwyntio ar effeithiau'r newidiadau i'r Prosiect.



Ffigur 2: Adeiladu adeilad ABWR yn Shimane 3 yn Japan

PROSIECT WYLFA NEWYDD – DATGANIAD O YMGYNGHORI CYMUNEDOL | PŴER NIWCLEAR HORIZON

MANTEISION AC EFFEITHIAU POSIBL

Byddai Prosiect Wylfa Newydd yn golygu buddsoddiad a manteision sylweddol (biliynau o bunnoedd) i economi Ynys Môn a Gogledd Cymru yn ystod y datblygu, y gweithredu a'r datgomisiynu.

Mae'r Prosiect yn cael effaith gadarnhaol yn barod. Y llynedd, buddsoddiad tua £12.3m yn y gadwyn gyflenwi leol, a bydd y manteision hyn yn dal i dyfu. Rydyn ni'n disgwyl darparu:

- **25%** o dwf economaidd lleol yn ystod y cyfnod adeiladu;
- **12** prentis lleol arall yn dechrau yn 2017, ar ben y **10** sydd eisoes wedi cael eu recriwtio;
- datblygu a darparu 'Dyfodol' – ein rhaglen ymgysylltu ag addysg;
- buddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau hyfforddi lleol, gan gynnwys buddsoddiad gwerth **£1 miliwn** yng Nghanolfan Beirianeg newydd Coleg Menai; a
- dros **£20 miliwn** bob blwyddyn mewn cyflogau yn unig i'r economi leol drwy gydol 60 mlynedd o weithredu.

Bydd uchafswm o 9,000 o weithwyr adeiladu yn gweithio yn Wylfa Newydd yn ystod y cyfnodau prysuraf. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr adeiladu ym mhrif safle'r Orsaf Bŵer, cyfleusterau'r Orsaf Bŵer oddi ar y safle a'r datblygiadau cysylltiedig. Bydd y Prosiect hefyd yn creu ac yn cefnogi rhagor o gyfleoedd cyflogaeth a chadwyn gyflenwi mewn gwasanaethau a diwydiannau cefnogol.

Pan fydd ar waith, rydyn ni'n disgwyl y bydd hyd at 850 o swyddi parhaol yn yr Orsaf Bŵer ar draws amrywiaeth eang o rolau. Bydd yn rhaid cael tua 1,000 o weithwyr ychwanegol yn ystod cyfnodau segur y safle a fydd wedi cael eu cynllunio ar gyfer cynnal a chadw.

Byddai Prosiect Wylfa Newydd yn gynllun adeiladu mawr, gyda gweithgareddau mawr yn digwydd ar safle Wylfa Newydd a'r ardal gyfagos dros nifer o flynyddoedd. Ar ôl ei hadeiladu, byddai'r Orsaf Bŵer yn dod yn nodwedd amlwg yn y dirwedd.

Byddwn ni'n cynnwys gwybodaeth am effeithiau cymunedol ac amgylcheddol posibl y newidiadau arfaethedig, gan edrych ar faterion fel effeithiau economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg, hamdden, traffig a thrafnidiaeth, sŵn, ansawdd yr aer, pridd, hydroleg, ecoleg, yr amgylchedd morol, y dirwedd a golygfeydd. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhoi ar fesurau rydyn ni'n eu cynnig i ostwng unrhyw effaith andwyol bosibl fel gwaith tirwedd a darparu nodweddion a chynefinoedd bywyd gwyllt newydd. Bydd gwybodaeth ein hymgyngoriad hefyd yn amlinellu'r camau lliniaru amgylcheddol ac economaidd gymdeithasol posibl byddwn ni'n eu cymryd i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol a gwella manteision y Prosiect.



Ffigur 3: Yr amserlen a'r cyfnodau a gynigir ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd

Pryd a ble byddwn ni'n ymgynghori ynghylch Prosiect Wylfa Newydd?

Ganolfan 2017 byddwn yn cynnal trydydd cam o ymgynghori cyn ymgeisio. Rydyn ni'n ymgynghori ynghylch newidiadau arfaethedig i'r Prosiect o ganlyniad i barhau i ddatblygu'r dyluniad, newidiadau yn y gyfraith ac mewn ymateb i'r ymatebion i'r ymgynghoriadau blaenorol. Dyma'r newidiadau rydyn ni'n ymgynghori yn eu cylch:

- newidiadau i'n strategaeth llety gweithwyr adeiladu arfaethedig, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y gweithwyr y mae'n debyg y bydd eu hangen i gyflawni'r Prosiect a chynnydd yn nifer y gweithwyr rydyn ni'n bwriadu darparu llety iddynt ym mhrif safle'r Orsaf Bŵer;
- newidiadau canlyniadol posibl i nifer y lleoliadau lle bydd angen datblygu llety gweithwyr dros dro;
- newidiadau i ddyluniad ac i weithrediad ein safle parcio a theithio arfaethedig yn Dalar Hir a'r ganolfan logisteg ym Mharc Cybi; a
- rydyn ni nawr hefyd yn cynnig y bydd cyfleusterau'r orsaf bŵer oddi ar y safle, y garej offer argyfwng symudol, y ganolfan rheoli argyfwng amgen a'r labordy arolygon amgylcheddol, ar yr un safle a oedd wedi cael ei gynnig ar gyfer y garej offer argyfwng symudol yn Llanfaethlu.

Ar ben hynny, byddwn ni'n rhannu'r cynlluniau rydyn ni wedi'u diweddarau ar gyfer prif safle'r Orsaf Bŵer. Bydd yn dal i gynnwys y ddau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU a'r adeiladau, y strwythurau a'r nodweddion cefnogol; fodd bynnag rydyn ni wedi gwneud newidiadau i symud yr adweithyddion yn nes at ei gilydd a lleihau ôl-troed yr Orsaf Bŵer.


Byddwn ni'n sicrhau bod yr ymgynghori'n gynhwysol ac yn glir drwy ddarparu gwybodaeth mae modd ei deall yn hawdd, drwy ddefnyddio deunyddiau gweledol pan fydd hynny'n briodol. Bydd hyn yn ennyn sylwadau adeiladol sy'n seiliedig ar wybodaeth ynghylch Prosiect Wylfa Newydd. Bydd y deunyddiau ymgynghori'n egluro elfennau o'r cynigion rydyn ni'n gofyn yn benodol am safbwyntiau'r gymuned leol a rhanddeiliaid lleol yn eu cylch.

Byddwn yn cyhoeddi manylion dyddiadau a lleoliadau'r ymgynghoriad, ynghyd â lle bydd modd adolygu'r dogfennau ar ein gwefan www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad ac mewn hysbysebion a fydd yn ymddangos mewn papurau newydd lleol tua phedair wythnos ymlaen llaw (gan ddibynnu ar ddyddiadau cyhoeddi papurau newydd lleol).

Os bydd angen, efallai byddwn hefyd yn ymgynghori'n ychwanegol â'r cyhoedd mewn ffordd wedi'i thargedu ynghylch materion penodol. Byddai ymgynghori o'r fath hefyd yn cael ei hysbysebu rhyw bedair wythnos ymlaen llaw.

Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â'r gymuned drwy gymorthfeydd agored, sy'n cael eu hysbysebu'n eang ymlaen llaw mewn papurau newydd lleol ac ar ein gwefan www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad, a Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd. Bydd cylchlythyrau am gynnydd Prosiect Wylfa Newydd yn parhau i gael eu dosbarthu'n rheolaidd i bob tŷ ar Ynys Môn.

Ar ôl i ni ddadansoddi ac ystyried adborth yr ymgynghoriad, rydyn ni'n cynnig cyflwyno ein cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu yn nes ymlaen yn 2017.



Ffigur 4: Ein dull ymgynghori

PROSIECT WYLFA NEWYDD – DATGANIAD O YMGYNGHORI CYMUNEDOL | PŴER NIWCLEAR HORIZON

Ble rydyn ni'n ymgynghori ac â phwy?

Byddwn yn parhau i ymgynghori â'r cymunedau a nodir isod, ar draws Parthau A, B ac C. Serch hynny, mae croeso i unrhyw un roi adborth ar ein cynigion ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd a bydd gwybodaeth ysgrifenedig ar gael yn eang, er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad yn effeithiol ac o fewn cyrraedd pawb.

Bydd ein proses ymgynghori'n cael ei chynnal dros dri 'pharth', sef:

- **Parth A** – Ynys Môn, sef yr ardal sydd fwyaf tebyg o weld effeithiau uniongyrchol Prosiect Wylfa Newydd;
- **Parth B** – Ardal Gwynedd (Arfon), sy'n cynnwys Bangor a Chaernarfon; a
- **Parth C** – Gogledd Orllewin Cymru, fel y diffinnir yr ardal gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys canolfannau allweddol o ran poblogaeth a busnesau, fel Llandudno a Phorthmadog ac ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Rydyn ni'n cydnabod y bydd gan drigolion, cymunedau, sefydliadau a rhanddeiliaid eraill ofynion gwahanol o ran gwybodaeth, a bydd ein proses ymgynghori yn adlewyrchu hyn. Er enghraifft, ym Mharth A, rydyn ni'n disgwyl y bydd llawer o'r trafodaethau'n canolbwyntio ar effeithiau uniongyrchol y gwaith adeiladu a gweithredu, ond ym Mharth C, efallai y bydd mwy o ddiddordeb mewn materion economaidd a chymdeithasol ehangach, fel cyfleoedd cyflogi.

Byddwn ni'n targedu digwyddiadau ymgysylltu'n briodol at y rhai sydd fwyaf tebygol o weld effeithiau Prosiect Wylfa Newydd, gan gydnabod efallai y bydd y rhai a fydd yn gweld effeithiau llai uniongyrchol hefyd eisiau cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgynghori.

Yn ogystal ag ymgynghori â'r cyhoedd yn ehangach a'u cynrychiolwyr, byddwn ni hefyd yn gweithio gyda grwpiau penodol, busnesau lleol, cynghorau cymuned, cynghorau sir a grwpiau a mudiadau cymunedol eraill i gynyddu'r ymwybyddiaeth o'r broses ymgynghori. Er mwyn helpu i sicrhau bod yr ymgynghoriad o fewn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl, rydyn ni wedi datblygu Strategaeth Cynyddu Cynhwysiant. Mae copi o hon wedi cael ei lwytho i fyny ar ein gwefan ac mae copïau caled ar gael ar gais. Nod hon ydy sicrhau ein bod ni'n gweithio gyda mudiadau ar draws y gymuned i sicrhau bod pobl yn cael cyfleoedd rhesymol i gael gafael ar wybodaeth am Brosiect Wylfa Newydd ac ymateb i'r ymgynghoriad os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

Yn benodol, byddwn ni'n parhau i weithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn i ddefnyddio arferion ymgynghori da sy'n berthnasol yn lleol, fel y rheini sydd wedi cael eu datblygu drwy'r prosiect Llais Cymunedol, a chefnogi gwaith Swyddogion Cynnwys y Gymuned.

Byddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau ar draws y gymuned i ddarparu gwybodaeth i bobl am ein Prosiect Wylfa Newydd a sicrhau eu bod nhw'n cael cyfleoedd priodol i ymateb. Bydd hyn yn rhan annatod o'n holl weithgarwch ymgynghori.

Sut byddwn ni'n ymgynghori?

Bydd Cam Tri'r ymgynghoriad yn canolbwyntio i raddau helaeth ar y newidiadau i'r Prosiect sydd wedi codi ers yr ymgynghoriadau blaenorol. Bydd yn para am 30 diwrnod.

Yn yr un modd â Cham Un a Cham Dau, bydd ein hymgynghoriad Cam Tri yn cael ei strwythuro o amgylch cyfres o ddigwyddiadau arddangos bach a sesiynau galw draw sy'n rhoi cyfle i bobl gwrrdd â'n tîm, gofyn cwestiynau a rhoi adborth. Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu cynnal ar draws Parthau A, B ac C a byddan nhw'n cael eu targedu at yr ardaloedd hynny y mae disgwyl y bydd Prosiect Wylfa Newydd yn effeithio arnyn nhw fwyaf. Bydd yr ymgynghoriadau'n cynnwys trosolwg, crynodeb a deunyddiau arddangos yn Gymraeg a Saesneg, a byddan nhw wedi cael eu hysgrifennu mewn iaith glir a hawdd ei darllen.

Byddwn yn ceisio ymgysylltu'n rhagweithiol â phartïon sydd â diddordeb drwy fynd i ddigwyddiadau lleol ee marchnadoedd a chynnal nifer o ddigwyddiadau achlysurol bach mewn lleoliadau lle rydyn ni'n gwybod y bydd nifer mawr o bobl. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i bobl na fydden nhw fel arall yn ymgysylltu â ni i gael rhagor o wybodaeth am y Prosiect a rhoi adborth. Bydd aelodau'r gymuned sydd â diddordeb ym Mhrosiect Wylfa Newydd hefyd yn gallu cael gafael ar wybodaeth mewn llyfrgelloedd lleol ac adeiladau dinesig eraill, er na fydd staff yn yr arddangosfeydd hyn oni nodir fel arall.

Bydd unrhyw ymgynghoriad ychwanegol wedi'i dargedu sy'n canolbwyntio ar faterion penodol ar ôl ymgynghoriad Cam Tri yn seiliedig i raddau helaeth ar ddogfennau crynodeb byr er efallai y bydd angen cynnal ambell i gyfarfod cymunedol.

Bydd y deunyddiau annhechnegol a fydd yn cael eu cynhyrchu ar gyfer yr holl weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu'n

ddwyieithog. Bydd siaradwyr Cymraeg ar gael yn y digwyddiadau lle bydd staff ac rydyn ni'n croesawu adborth i'r ymgynghoriad yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd ein dogfen ymgynghori'n cynnwys manylion ynghylch sut mae gwneud cais am wybodaeth mewn print bras ac mae gennym rif rhadffôn er mwyn helpu gydag ymholiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg ar 0800 954 9516.

Bydd yr holl ddogfennau ymgynghori, gan gynnwys y rheini o ymgynghoriadau blaenorol, ar gael ar ein gwefan yn www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad

SUT BYDDWN NI'N HYSBYSEBU'R YMGYNGHORIAD?

Byddwn yn defnyddio sawl ffordd o roi gwybod am y broses ymgynghori a sicrhau bod y gymuned yn gallu cymryd rhan. Byddwn yn ystyried pob math o gyfryngau addas ar gyfer cyfathrebu a byddwn yn gweithio gyda grwpiau cynrychioladol, gan gynnwys Tîm Cyfathrebu Cyngor Sir Ynys Môn i sicrhau ein bod mor effeithiol â phosibl.

Bydd hyn o leiaf yn cynnwys:

- **cylchlythyrau** – Mae ein Newyddion i'r Gymuned dwyieithog yn cael ei ddsbarthu i oddeutu 33,000 o gartrefi ar draws Ynys Môn ac mae modd ei lwytho i lawr oddi ar ein gwefan. Mae'n cynnwys manylion ynghylch yr ymgynghoriad, gan gynnwys sut mae cymryd rhan a lle mae modd cael gafael ar ragor o wybodaeth. Byddwn yn cyhoeddi rhifyn cyn yr ymgynghoriad;
- **hysbysebion yn y wasg** – Byddwn yn rhoi hysbysebion mewn amrywiaeth o gyhoeddiadau lleol gan roi manylion ein hymgynghoriad, gan gynnwys lleoliadau ac amser y digwyddiadau, mewn cyfryngau lleol a rhanbarthol Cymraeg a Saesneg;

- **datganiadau i'r wasg** – Bydd digwyddiadau ymgynghori'n cael eu cyhoeddi drwy ddatganiadau i'r wasg a byddwn ni'n cynnig sesiynau briffio i'r wasg ar gyfer cyhoeddiadau lleol a radio lleol, eto yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- **posteri** – Bydd posteri'n cael eu rhoi mewn adeiladau dinesig fel llyfrgelloedd a neuaddau cymunedol a byddan nhw'n cael eu rhoi i grwpiau a mudiadau cymunedol. Bydd y rhain yn rhoi manylion lleoliadau digwyddiadau a sut mae modd i bobl gael gwybod mwy am yr ymgynghoriad;
- **Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd** – Mae hwn yn grŵp cyswllt rhanddeiliaid annibynnol a'i nod ydy sianelu gwybodaeth gennym ni drwy gynrychiolwyr cymunedol i'r gymuned drwyddi draw ac fel arall. Cynhelir cyfarfod ar ddechrau'r ymgynghoriad;
- **rhanddeiliaid, grwpiau a mudiadau** – Byddwn ni'n ymgysylltu ag amrywiaeth o rhanddeiliaid a mudiadau i sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o'r ymgynghoriad a, phan fo'n briodol, byddwn ni'n rhoi manylion ynghylch sut gall pobl gymryd rhan;
- **gwefan** – Bydd pob dogfen ymgynghori a manylion ynghylch pob cam o'r ymgynghoriad, gan gynnwys lleoliad ac amser y digwyddiadau, ar gael ar ein gwefan www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad a byddwn ni'n cyfeirio'n glir at y wefan yn ein holl lenyddiaeth;
- **cyfryngau cymdeithasol** – I ddechrau byddwn ni'n defnyddio Twitter ac YouTube i roi cyhoeddusrwydd i bob cam o'r ymgynghoriad gan gyflwyno sianeli cyfryngau cymdeithasol eraill fel sy'n briodol. Byddwn yn cymryd rhan weithredol mewn sgysiau a fydd yn digwydd drwy gydol yr ymgynghoriad ar gyfryngau cymdeithasol a byddwn yn

adolygu gweithgarwch i ddod o hyd i unrhyw faterion a allai fod yn trendio mewn perthynas â'n Prosiect; a

- **cyfryngau eraill** – Byddwn ni'n cysylltu â chyfryngau lleol (ee gorsafoedd radio a phapurau newydd) cyn ac yn ystod yr ymgynghoriad i sicrhau bod pobl leol yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

PROSIECT WYLFA NEWYDD – DATGANIAD O YMGYNGHORI CYMUNEDOL | PŴER NIWCLEAR HORIZON

Sut gallaf ymateb?

Mae eich ymateb chi i'n hymgyngoriad cyhoeddus yn rhan bwysig iawn o'r broses ymgynghori cyn ymgeisio ac mae croeso i chi gyflwyno eich ymateb yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae sawl ffordd i chi ymateb:

- **yn bersonol**, yn unrhyw un o'n digwyddiadau. Byddwn ni wrth law i'ch helpu i lenwi a darparu adborth ysgrifenedig, gan sicrhau bod eich safbwyntiau'n cael eu cofnodi'n llawn;
- **drwy ffurflen adborth** sydd ar gael yn y digwyddiadau ymgynghori ac ar-lein yn: www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad Mae'r rhain ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- **yn ysgrifenedig** i'r cyfeiriad rhadbost (**FREEPOST Horizon Nuclear Power Consultation**); a
- **drwy e-bost** at ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com

Mae gennym hefyd linell radffôn Gymraeg a Saesneg i ateb eich cwestiynau a'ch ymholiadau unrhyw bryd. Gallwch chi gysylltu â ni ar: **0800 954 9516**.

BETH FYDD YN DIGWYDD I FY YMATEBION?

Bydd pob ymateb yn cael ei gofnodi, ei adolygu a'i ystyried fel rhan o'r broses ymgynghori a bydd yn cael ei storio'n ddiogel ar ein rhan.

Bydd Adroddiad yr Ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno gyda'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu, yn egluro'r broses a

ddefnyddiwyd gennym wrth ystyried eich ymateb i'r ymgynghoriad. Pan fyddwn ni heb newid ein cynigion i adlewyrchu sylw, byddwn yn egluro ein rhesymau dros wneud hynny

Os hoffech chi gael fersiwn testun mawr neu fersiwn arall o'r ddogfen hon, cysylltwch â ni ar **0800 954 9516** neu ewch i'n gwefan: www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad

CYSYLLTU Â NI:

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn neu adborth ynghylch Prosiect Wylfa Newydd gallwch chi gysylltu â ni ar ein llinell gymorth radffôn Wylfa Newydd arbennig a'n cyfeiriad e-bost, drwy ffonio **0800 954 9516** neu e-bostio ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com

Pŵer Niwclear Horizon
Sunrise House
1420 Charlton Court
Gloucester Business Park
Gloucester, GL3 4AE

Ffôn +44 (0)1242 508508

www.horizonnuclearpower.com

Mae'r holl ddeunydd sydd yn y ddogfen hon, oni nodir fel arall, yn hawlfraint i Horizon Nuclear Power Wylfa Ltd, ac ni cheir ei atgynhyrchu heb ganiatâd ymlaen llaw. Gall defnyddio neu gopïo'r deunydd heb awdurdod mewn unrhyw ffordd dorri rheolau nod masnach, hawlfraint a hawliau eiddo eraill a statudau sifil a throseddol. Ni cheir defnyddio'r deunydd mewn unrhyw ffordd sy'n torri unrhyw nod masnach, hawlfraint na hawliau eiddo eraill ac mae Horizon Nuclear Power Wylfa Ltd yn cadw pob hawl mewn perthynas â defnyddio heb awdurdod o'r fath.

WN0901-HZCON-PAC-REP-00001